

Disgrifiad Swydd – Uwch-reolwr, TAR yng Nghymru

Cyf - 16511

Yn atebol i: Cyfarwyddwr TAR (Cymru)

Lleoliad: Caerdydd (Bydd rhywfaint o weithio ledled Cymru a fydd yn golygu bod angen i chi wneud rhywfaint o deithio ac aros dros nos yn achlysurol. Efallai y bydd angen i chi deithio i Milton Keynes yn achlysurol hefyd.)

Gradd G8

£41,526 - £49,553

Ynglŷn â'r rôl

Mae'r rôl newydd hon yn cyfrannu at y broses o gyflwyno'r rhaglen llwybr amgen ôl-raddedig newydd i addysgu yng Nghymru, drwy naill ai lwybr rhan amser neu lwybr cyflogedig. Cyflwynir y rhaglen mewn partneriaeth â'r Consortia Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Dibenion allweddol y rôl yw:

Rheoli'r adnoddau mewnol, y gweithrediadau a'r gwaith datblygu polisi gweinyddol ar gyfer y rhaglen TAR yng Nghymru ar gyfer yr Ysgol Addysg, Plentyndod, Ieuenctid a Chwaraeon a'r Brifysgol Agored yng Nghymru, gan weithredu â hunanreolaeth a blaengaredd er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwr TAR i ganolbwyntio ar ddatblygiad academaidd a rheolaeth strategol y prosiect.

Sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno i fyfyrwyr ar amser, o fewn y gyllideb ac i safonau ansawdd, gan gynllunio, sefydlu ac arwain tîm o staff gweinyddol a phrosesau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen a'r myfyrwyr.

Rheoli'r gwaith o adrodd i'r Pwyllgor Partneriaeth, sy'n cynnwys aelodau o staff Y Brifysgol Agored, arweinwyr AGA o bob Consortia Rhanbarthol, Ysgolion a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gan weithio ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr TAR.

Cynnal a datblygu'r cydberthnasau ar draws y rhaglen, gan gynnwys staff sy'n gweithio yn Y Brifysgol Agored yng Nghymru ac ar gampws Y Brifysgol Agored yn Milton Keynes, mewn Ysgolion ledled Cymru a gyda myfyrwyr.

Prif gyfrifoldebau

- Bod yn gyswllt rheoli rhwng y tîm TAR yng Nghymru a gweddill tîm y Brifysgol Agored yng Nghymru, yr Ysgol Addysg, Plentyndod, Ieuenctid a Chwaraeon, rhannau eraill o'r Gyfadran, y Brifysgol a sefydliadau allanol, yn ôl yr angen.
- Cynrychioli a chefnogi'r tîm TAR mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau y caiff gofynion y Pwyllgor Partneriaeth, y Brifysgol a Llywodraeth Cymru eu bodloni mewn perthynas â phrofiad myfyrwyr, gofynion sicrhau ansawdd, materion yn ymwneud â chadw myfyrwyr a chynnydd, hygyrchedd a materion perthnasol eraill.
- Cynllunio, sefydlu ac arwain tîm gweinyddol i gefnogi'r cymhwyster TAR, y myfyrwyr, y staff a phrosesau.
- Rhoi cyngor i gydweithwyr ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster; ymateb i ymholiadau cymhleth a gyfeiriwyd gan y Ganolfan Cymorth a Recriwtio Myfyrwyr neu eu hailgyfeirio i'r maes priodol.
- Cydlynu a gwirio ansawdd gwybodaeth am y cymhwyster a'r rhaglen ar gyfer cyhoeddiadau'r Brifysgol a chynulleidfaoedd allanol yn ôl yr angen.

- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu ymarfer effeithiol a gweithdrefnau effeithiol o fewn y cymhwyster a phrosesau'r Ysgol a'r Gyfadran, gan gydgysylltu â chydweithwyr fel y bo'n briodol.
- Cynllunio, cynnal a goruchwyllo'r gwaith o reoli cofnodion myfyrwyr yn rheolaidd ar gyfer y cymhwyster TAR yng Nghymru, i'w defnyddio gan amrywiaeth o randdeiliaid ac fel sail i adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru.
- Sicrhau y caiff dogfennau a gwybodaeth am gymwysterau eu storio'n briodol ac yn ddiogel at ddibenion sicrhau ansawdd ac adolygiadau academaidd, gan ddilyn canllawiau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a chanllawiau ar arfer gorau.
- Cael gafael ar ddata sy'n berthnasol i'r rhaglen a'u dehongli, a sicrhau y caiff y data eu cyfleu a'u gweithredu.
- Gweithio ochr yn ochr â thîm academaidd TAR yng Nghymru er mwyn neilltuo myfyrwyr i Diwtoriaid y Cwricwlwm a Thiworiaid Ymarfer.
- Rheoli'r gweithdrefnau ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol ar gyfer myfyrwyr a staff ar y cwrs TAR drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Creu'r cyswllt gweinyddol uwch rhwng Gwasanaethau Academaidd, cydweithwyr academaidd, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion er mwyn sicrhau y rhoddir yr holl wybodaeth berthnasol ar gyfer addysgu cydweithredol ac y caiff y broses gofrestru ei chwblhau yn effeithiol.
- Cymryd cyfrifoldeb am y gwaith o weinyddu'r trefniadau ar gyfer cyfnod sefydlu'r myfyrwyr a'r Ysgolion Dydd.
- Monitro cynnydd cynwion ffurfiol, gan weithio gyda'r cydweithwyr priodol i sicrhau datrysiad addas.
- Cyfrannu at weithgareddau marchnata a hyrwyddo ar gyfer y rhaglen TAR.
- Meithrin cysylltiadau â chydweithwyr sy'n cefnogi rhaglenni proffesiynol eraill yn y Gyfadran, gan gynnal cysylltiadau da er mwyn hwyluso gwaith a rhannu arfer da ar draws Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Gyfadran.

Rheoli arian

- Sefydlu, cynllunio, rheoli a bod yn atebol am feysydd perthnasol o gyllideb y cymhwyster a chyllideb y rhaglen mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Cyfrifoldebau goruchwyllo neu reoli llinell

- Bod yn rheolwr llinell ar dîm o staff academaidd a/neu staff cymorth.
- Rhoi arweiniad i'r tîm o staff academaidd a staff cymorth sy'n gweithio ar y rhaglen yng Nghymru ac arweiniad arbenigol i gydweithwyr sy'n gweithio yn Milton Keynes.

Arall

- Ymgymryd â dyletswyddau eraill fel y cytunwyd â'ch rheolwr llinell.

Sgiliau a Phrofiad

Hanfodol:

- Gradd dosbarth cyntaf, neu gymwysterau addysg uwch neu brofiad cyfatebol.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd sy'n newid ac o ymateb i bolisiau a gweithdrefnau newydd.
- Profiad perthnasol o reoli prosiectau yn llwyddiannus, o'r fanyleb hyd at eu cwblhau, gan gynnwys nodi a rheoli risgiau.
- Profiad o reoli'r gyllideb gyda sgiliau rhifedd cadarn a dealltwriaeth o egwyddorion rheolaeth ariannol.
- Profiad o ddadansoddi a dehongli data ystadegol er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Dealltwriaeth o weithio mewn amgylchedd dwyieithog ac empathi at hyn.
- Sgiliau cyfathrebu gwych ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys y gallu i ddehongli a chymhwyso polisiau a chyfleu gwybodaeth yn effeithiol yn ysgrifenedig, mewn rhif ac ar lafar i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.
- Sgiliau gweithio mewn tîm a rhyngpersonol gwych, ynghyd â'r gallu i arwain a gweithio mewn ffordd gydweithredol ac ymatebol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tîm a pharhau'n effeithiol iawn o dan bwysau.
- Y gallu i gyflwyno a chymathu syniadau ar gyfer newid, asesu eu dichonoldeb a chymryd cyfrifoldeb am y broses o'u rhoi ar waith.

Dymunol:

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â phartneriaid, rhanddeiliaid a myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cymwysterau proffesiynol neu reoli a/neu dystiolaeth o hyfforddiant rheoli ffurfiol.
- Profiad o ddysgu o bell, naill ai fel myfyriwr neu athro, gan ddefnyddio dulliau cyflwyno drwy gyfryngau newydd fel amgylcheddau dysgu rhithwir.